Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**

# Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)
Grŵp ffocws Senedd Ieuenctid Cymru

Tachwedd 2023

## Y cefndir

**1.** Ar 6 Medi 2023, ymunodd tri Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru mewn grŵp ffocws fel rhan o ystyriaethau'r Pwyllgor Biliau Diwygio o egwyddorion cyffredinol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).[1]

**2.** Cafodd yr Aelodau wybodaeth gefndir [2]am y Bil a gofynnwyd iddynt feddwl am y cwestiynau a ganlyn cyn i'r grŵp ffocws gwrdd:

- Cwestiwn 1: Beth ydych chi'n ei feddwl am y system bleidleisio newydd? Er enghraifft, a ydych chi'n meddwl y bydd pobl yn deall y ffordd newydd y byddan nhw'n pleidleisio? A fydd yn gwneud gwahaniaeth o ran tegwch canlyniad yr etholiad?

- Cwestiwn 2: Beth ydych chi'n ei feddwl am gynyddu nifer yr Aelodau o 60 i 96? Er enghraifft, o'ch profiad chi fel Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, ydych chi'n meddwl y bydd yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y mae Aelodau'n gwneud eu gwaith neu pwy sy'n sefyll yn yr etholiad?

- Cwestiwn 3: A oes unrhyw un o'r newidiadau yn y Bil yn eich gwneud yn fwy neu'n llai tebygol o fod eisiau sefyll i gael eich ethol yn Aelod o'r Senedd? Er enghraifft, bod Aelodau'n gwasanaethu am bedair blynedd nid pump, neu fod yn rhaid i Aelodau ac ymgeiswyr fyw yng Nghymru. A oes unrhyw beth arall a allai gael ei wneud i wneud y Senedd yn fwy cynrychiadol ac amrywiol?

[1] Cafodd pob un o Aelodau'r Senedd Ieuenctid wahoddiad a thri Aelod gwrywaidd a gymerodd ran.
[2] Cafodd y wybodaeth a roddwyd i'r Aelodau hefyd ei chyhoeddi, ynghyd â ffurflen ar-lein, i ganiatáu i'r Aelodau hynny o'r Senedd Ieuenctid nad oeddent yn gallu ymuno â'r grŵp ffocws, ac unrhyw blant neu bobl ifanc eraill, roi eu sylwadau'n ysgrifenedig.

**3.** Mae crynodeb o'r meysydd trafod allweddol i'w weld isod. Nid yw'r ffaith bod materion neu sylwadau'n cael eu nodi yn golygu bod y cyfranogwyr neu'r Pwyllgor, o reidrwydd, yn ei gymeradwyo.

## Newid y ffordd y mae Aelodau o'r Senedd yn cael eu hethol

**4.** Roedd yr holl gyfranogwyr o blaid system bleidleisio sy'n seiliedig ar gynrychiolaeth gyfrannol ond nid oeddent o blaid y system rhestr gaeedig sy'n cael ei chynnig yn y Bil. Roedden nhw'n cytuno bod y gallu i bleidleisio dros ymgeisydd unigol yn egwyddor bwysig ac yn teimlo y byddai'r system rhestr gaeedig yn rhoi llai o ddewis i bleidleiswyr. Er enghraifft, os oedd pleidleisiwr yn cefnogi plaid ond nid unigolyn penodol yn y blaid honno.

**5.** Roedd pryderon y byddai'r system rhestr gaeedig a'r cynnydd ym maint yr etholaethau yn gwanhau democratiaeth leol ac yn rhoi mwy o bŵer i'r pleidiau'n ganolog yn hytrach nag i'r pleidleiswyr. Awgrymodd un cyfranogwr system bleidleisio wahanol a fyddai'n cynnwys 32 o etholaethau llai, gyda thair sedd ym mhob etholaeth, a byddai Aelodau'n cael eu hethol drwy ddefnyddio system pleidlais sengl drosglwyddadwy.

## Cynyddu maint y Senedd i 96 Aelod;

**6.** Roedd y cyfranogwyr yn gefnogol i'r cynnig i gynyddu nifer yr Aelodau, gan gydnabod cyfrifoldebau'r Aelodau, eu llwyth gwaith a'r posibilrwydd i hwnnw'n gynyddu os caiff mwy o bwerau eu datganoli. Teimlwyd nad yw'r Senedd yn cyflawni ei rôl cystal ag y gallai, gan fod ei faint yn golygu bod yn rhaid i'r Aelodau eistedd ar sawl pwyllgor a theimliwyd nad oedd hyn yn arwain at waith craffu da. Awgrymwyd y dylid cynyddu'r nifer i o leiaf 80 Aelod a'r teimlad oedd bod y cynnydd arfaethedig, sef 96 Aelod, yn rhesymol.

**7.** Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod fod nifer yn anghytuno â'r cynnig i gynyddu nifer y gwleidyddion ac awgrymwyd bod angen gwneud mwy i wella dealltwriaeth pobl o bwerau a chyfrifoldebau'r Senedd a rôl Aelodau fel deddfwyr a phobl sy'n gyfrifol am benderfyniadau.

## Yr angen i Aelodau o'r Senedd ac unrhyw un sy'n sefyll yn etholiad y Senedd fod yn byw yng Nghymru

**8.** Roedd y cyfranogwyr o blaid ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr fyw yng Nghymru gan ddweud y dylid mynd ymhellach a'i gwneud yn ofynnol iddynt fyw neu weithio yn yr etholaeth y maent yn ei chynrychioli neu'n sefyll ynddi. Nid

oeddent yn teimlo bod yr angen iddynt fyw yng Nghymru yn dylanwadu ar eu penderfyiad i sefyll mewn etholiad, cyhyd ag y byddent yn deall y system.

**9.** Eglurodd y Pwyllgor fod y gofyniad hefyd yn golygu y byddai'n rhaid i'r ymgeisydd nesaf ar restr plaid fyw yng Nghymru pan fyddai swydd wag yn codi rhwng etholiadau, gan dynnu sylw at y ffaith y gallai ymgeiswyr fod wedi symud o Gymru erbyn hynny. Mewn system rhestr gaeedig, roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn teimlo ei bod yn rhesymol defnyddio'r etholiad perthnasol fel pwynt cyfeirio at ddibenion preswyliaeth neu i roi amser i'r ymgeisydd wrth gefn symud yn ôl i Gymru.

## Lleihau'r amser rhwng etholiadau'r Senedd o bum mlynedd i bedair blynedd

**10.** Roedd yr holl gyfranogwyr o blaid cynnal etholiadau bob pedair blynedd gan y byddai'n rhoi mwy o gyfleoedd i bleidleisio yn ogystal â gwella amrywiaeth ac annog mwy o bobl i sefyll. Unwaith eto, nid oedd y cyfranogwyr yn credu y byddai tymor byrrach o bedair blynedd yn gwneud gwahaniaeth i'w penderfyniad i sefyll mewn etholiad.

## Seddi gwag

**11.** Roedd rhai cyfranogwyr o blaid llenwi seddi gwag drwy gynnal is-etholiadau, yn hytrach na dewis yr ymgeisydd nesaf ar y rhestr, gan nad oeddent yn teimlo ei bod yn iawn mynd yn ôl mewn amser o ystyried faint all newid yn ystod cyfnod o bedair blynedd.

**12.** Os nad oes ymgeiswyr ar ôl ar restr plaid, awgrymwyd y dylai'r blaid allu enwebu person ar gyfer y sedd wag yn hytrach na gadael sedd yn wag tan yr etholiad nesaf.

## Cynyddu nifer uchaf Gweinidogion Cymru o 12 i 17 (gyda'r posibilrwydd i hyn godi i 19)

**13.** Roedd un cyfranogwr o'r farn y dylai nifer y Gweinidogion fod yn seiliedig ar y pwerau a fydd wedi'u datganoli ar unrhyw adeg benodol yn hytrach na phennu'r nifer mewn deddfwriaeth. Roeddent yn o blaid y cynnig i gynyddu'r nifer.

**14.** Dywedodd cyfranogwr arall fod cydgyfrifoldeb gweinidogion yn golygu y byddai cynyddu nifer Gweinidogion Cymru yn rhoi mwy o bleidleisiau dibynadwy i Lywodraeth Cymru.

## Amrywiaeth ymgeiswyr sy’n cael eu hethol i'r Senedd

**15.** Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod y byddai system rhestr gaeedig yn hybu amrywiaeth yn y Senedd a thrafodwyd y cynigion deddfwriaethol arfaethedig i’w gwneud yn ofynnol i bleidiau gwleidyddol gynnig yr un nifer o ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd yn etholiadau’r Senedd.

**16.** Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod gan y Senedd enw da o ran sicrhau cynrychiolwyr benywaidd a’i bod wedi llwyddo i wneud hynny’n organig heb ddefnyddio cwotâu rhywedd. Roeddent yn credu bod hyn yn ddull priodol. Esboniodd y Pwyllgor fod rhai pleidiau gwleidyddol eisoes wedi cymryd camau cadarnhaol i gynyddu cynrychiolaeth menywod (megis gefeillio etholaethau, rhestrau byr menywod yn unig neu restrau ymgeiswyr rhanbarthol ‘am yn ail’) a bod hyn wedi cyfrannu i gynrychiolaeth menywod yn y Senedd.

**17.** Roedd pryder gan y cyfranogwyr y gallai cwotâu rhywedd wanhau sefyllfa merched, ac y dylid cynnig y cynrychiolydd gorau i’r pleidleiswyr yn hytrach na chynrychiolydd sydd â nodweddion penodol. Nodwyd hefyd y byddai’n anoddach i bleidiau bach gynnig ymgeiswyr. Tanlinellwyd hefyd fod amrywiaeth yn cynnwys safbwyntiau a chefndiroedd gwahanol, nid dim ond rhywedd gwahanol.

## Rhannu swydd

**18.** Roedd y cyfranogwyr yn ansicr ynghylch yr egwyddor o ganiatáu i Aelodau rannu swydd, ac yn amau a fyddai hynny’n ymarferol. Teimlent nad oedd y cynnig yn ddigon eglur a bod angen cysondeb rhwng y rhai a fyddai’n rhannu’r swydd.